**Dr Richard Jones**
**Cyfarwyddwr Addysg**
**Director of Education**

**Atebwch os gwelwch yn dda /Please reply to:**
Gwasanaeth Addysg / Education Service
Cyngor Sir Powys / Powys County Council
Neuadd y Sir / County Hall
Llandrindod Wells
Powys LD1 5LG

*Os yn galw gofynnwch am / If calling please ask for*

*Tîm Trawsnewid Addysg / Transforming Education Team*

*Ffôn / Tel:*

*E-bost / Email:* transforming.education@powys.gov.uk

*Dyddiad / Date: 28 Tachwedd / November 2025*

Rhieni disgyblion sy'n mynychu campws Cradoc Ysgol Golwg Pen y Fan /

Parents of pupils attending Ysgol Golwg Pen y Fan's Cradoc campus

Annwyl bawb / Dear all,

**Ysgol Golwg Pen y Fan – Campws Cradoc**

Fel y gwyddoch, yn dilyn y gostyngiad a welwyd yn nifer y disgyblion sy'n mynychu campws Cradoc Ysgol Golwg Pen y Fan ers i'r ysgol agor ym mis Medi 2024, mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn cynnal ymgynghoriad ar gynnig i gau'r campws o ddiwedd y flwyddyn ysgol hon (31 Awst 2026).

Yn ystod cyfarfodydd ymgynghori diweddar a gynhaliwyd gyda staff a llywodraethwyr yn yr ysgol, cawsom wybod bod pryder yn yr ardal leol pe bai nifer y disgyblion ar gampws Cradoc yn parhau i leihau, y gellid dod a'r dyddiad cau arfaethedig ymlaen, a byddai'r campws yn cau ar fyr rybudd iawn.

Yn y cyfarfodydd, sicrhawyd staff a llywodraethwyr y byddai dal angen i'r Cyngor gwblhau'r broses bresennol mewn perthynas â champws Cradoc, ac oherwydd yr angen am benderfyniadau'r Cabinet yn dilyn pob cam, ni ddisgwylir y byddai penderfyniad terfynol yn cael ei wneud tan fis Mai / Mehefin, felly ni fyddai amser i gau'r campws yn gynharach na 31 Awst 2026.

Gofynnwyd cwestiynau hefyd am y broses fyrrach sydd wedi'i hamlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion ar gyfer cau ysgolion gyda llai na 10 o ddisgyblion

**Ysgol Golwg Pen y Fan – Cradoc campus**

As you will be aware, following the decrease seen in the number of pupils attending Ysgol Golwg Pen y Fan's Cradoc campus since the school opened in September 2024, the Council is currently carrying out consultation on a proposal to close the campus from the end of this school year (31st August 2026).

During recent consultation meetings held with staff and governors at the school, we were informed that there was concern in the local area that should pupil numbers on the Cradoc campus continue to decrease, the proposed closure date could be brought forward and the campus would close at very short notice.

At the meetings, staff and governors were assured that the Council would still need to complete the current process in respect of the Cradoc campus, and that due to the need for Cabinet decisions following each stage, it is not expected that a final decision would be made until May / June, so there would be no time to close the campus any earlier than the 31st August 2026.

Questions were also asked about the shorter process which is outlined in the School Organisation Code for closing schools with fewer than 10 registered

cofrestredig, gyda staff a llywodraethwyr yn gofyn am gadarnhad a fyddai'r broses fyrrach hon yn berthnasol pe bai nifer y disgyblion ar gampws Cradoc yn gostwng i lai na 10 o ddisgyblion cofrestredig.

Mae'r adran berthnasol o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi:

*'Lle mae gan ysgol lai na 10 o ddisgyblion cofrestredig...ar bwynt cyfrifiad mis Ionawr mae Deddf 2013 yn caniatau i gyrff llywodraethol/awdurdodau lleol ddilyn proses symlach i gau'n swyddogol.'*

Fodd bynnag, mae hyn yn cyfeirio at **ysgol** o lai na 10 disgybl, nid **safle** o lai na 10 disgybl. Er bod nifer y disgyblion ar gampws Cradoc wedi gostwng, mae cyfanswm nifer y disgyblion yn Ysgol Golwg Pen y Fan yn 239 ar hyn o bryd, felly ni fyddai'r adran hon o'r Cod yn berthnasol.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn rhoi rhywfaint o eglurder ar yr amserlen weithredu.

Mae'r ymgynghoriad presennol yn parhau tan 18 Rhagfyr 2025. Mae gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar gael ar wefan y Cyngor: https://cy.powys.gov.uk/article/19893/Campws-Cradoc.

Byddwn yn eich annog i fanteisio ar y cyfle i roi gwybod i'r Cyngor eich barn ar y cynnig presennol fel rhan o'r ymgynghoriad, fel y gall y Cabinet ystyried yn wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio.

pupils, with staff and governors requesting confirmation as to whether this shorter process would apply should pupil numbers on the Cradoc campus decrease to fewer than 10 registered pupils.

The relevant section of the School Organisation Code states:

*'Where a school has fewer than 10 registered pupils…at the January census point the 2013 Act permits governing bodies/local authorities to undertake a streamlined procedure to bring about official closure.'*

However, this refers to a **school** of less than 10 pupils, not a **site** of less than 10 pupils. Although pupil numbers on the Cradoc campus have decreased, total pupil numbers at Ysgol Golwg Pen y Fan are currently 239, therefore this section of the Code would not be applicable.

I hope that this provides some clarity on the implementation timeline.

The current consultation continues until the 18th December 2025. Information about the consultation is available on the Council's website: https://en.powys.gov.uk/article/19892/Cradoc-Campus.

I would encourage you to take the opportunity to let the Council know your views on the current proposal as part of the consultation, so that these can be taken into consideration by Cabinet when deciding whether or not to proceed with the proposal.

Yn gywir / Yours sincerely,

Richard Jones

**Dr Richard Jones**
Cyfarwyddwr Addysg / Director of Education